**Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd NWR 02-00(min)**

## Cofnodion

**Dyddiad:** Dydd Gwener 17 Mawrth 2000

**Amser:** 10.00am i 1.00pm

**Lleoliad:** Neuadd y Sir (Cyngor Sir y Fflint), Yr Wyddgrug

## Yn Bresennol

*Aelodau*

| | |
|---|---|
| Gareth Jones, Cadeirydd | Conwy |
| Alison Halford | Delyn |
| Christine Humphreys | Gogledd Cymru |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| John Marek | Wrecsam |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Ieuan Wyn Jones | Ynys Môn |

*BT*

| | |
|---|---|
| Deiniol Tegid | Rheolwr Materion Corfforaethol BT Gogledd Cymru |
| Malcolm Williams | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol BT |

*Twristiaeth Gogledd Cymru*

| | |
|---|---|
| David Williams | Cadeirydd, Twristiaeth Gogledd Cymru |
| Alison Lea-Wilson | Is-Gadeirydd, Twristiaeth Gogledd Cymru |
| Peter Gibson | Cyfarwyddwr Twrisiaeth a Hamdden (Cyngor Conwy) |
| Dewi Davies | Rheolwr Gyfarwyddwr, Twristiaeth Gogledd Cymru |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc |

**Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**

Diolchodd y Cadeirydd i Gyngor Sir y Fflint am eu lletygarwch. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Elis Thomas, Janet Ryder a Dafydd Wigley.

**Eitem 1: Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yng Ngogledd Cymru** Croesawodd y Cadeirydd Deiniol Tegid a Malcolm Williams o BT a roddodd gyflwyniad ar Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh). (I weld y cyflwyniad cliciwch yma.)

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Gofynnwyd i BT sut y cafodd y deg tref oedd i dderbyn ADSL fel rhan o raglen Haen 6 eu dewis, pa mor fawr oedd yr ardal a wasanaethwyd ac a fyddai'r project yn cael ei ymestyn i ardaloedd eraill. Nododd y Pwyllgor bod tref ym mhob sir o fewn ardal Haen 6 wedi ei dewis mewn ymgynghoriad â'r awdurdodau lleol priodol, byddai'r gwasanaeth ar gael o fewn tua 3.5 i 4 cilomedr o'r gyfnewidfa ffôn lle y'i gosodwyd. Byddai penderfyniadau ar gyflwyno pellach yn seiliedig ar ystyriaethau masnachol. Roedd rhaglen Haen 6 yng Nghymru wledig yn defnyddio technoleg mwy datblygedig na bron unrhyw ran arall o'r DU;
- gofynnwyd i BT esbonio'r gwahaniaeth rhwng ADSL a Cell Stream. Nododd y Pwyllgor bod y ddwy system yn galluogi trosglwyddo data yn gyflymach. Roedd ADSL yn darparu gwasanaeth uwch i'r rhan fwyaf o gwsmeriaid unigol a busnesau bach tra bod gan Cell Stream fwy o gynhwysedd ac mae wedi ei gynllunio ar gyfer defnyddwyr mwy o'r sector masnachol a chyhoeddus;
- roedd angen i Aelodau'r Cynulliad gynnal cyswllt cyson a dibynadwy gyda swyddfeydd eu hetholaeth o Gaerdydd a gofynnwyd i BT am y ffordd orau o gyflawni hyn. Nododd y Pwyllgor bod ISDN yn darparu cyswllt cyflym o ansawdd uchel ond mai cyfrifoldeb y Cynulliad oedd penderfynu ar ei bolisi cyfathrebu. Pwysleisiwyd y dylai'r ateb priodol gynnwys system "gydlynus" i gynnwys pob agwedd ar anghenion cyfathrebu'r Cynulliad;
- gofynnwyd i BT ai 97% o boblogaeth Cymru neu o dir Cymru oedd yn cael ei gwmpasu gan

Cellnet. Nododd y pwyllgor mai 97% o'r boblogaeth ydoedd;

- dylai unigolion a busnesau yng Ngogledd Cymru fod yn gallu cael mynediad i'r rhyngrwyd am ddim fel yn UDA. Awgrymwyd hefyd y dylai llyfrgelloedd cyhoeddus ddarparu mynediad i'r Rhyngrwyd i fynd i'r afael ag eithrio Cymdeithasol. Nododd y Pwyllgor bod galwadau lleol am ddim yn yr UDA ond bod ardaloedd codi tâl lleol yn fach o'i cymharu â'r DU a bod cwmnïau cyfathrebu yn adfer y costau trwy ddulliau eraill fel croes gymorthdaliadau o alwadau cenedlaethol neu rentu llinellau. Roedd yn rhaid talu am fynediad i'r Rhyngrwyd un ffordd neu'i gilydd a gallai codi tâl am fynediad a galwadau ffôn heb eu mesur fod yn un ffordd ymlaen mewn marchnad gystadleuol;
- gofynnwyd i BT i ba raddau y byddai ffonau symudol trydedd genhedlaeth yn cymryd drosodd ac a oedd cyfiawnhad dros fuddsoddi mewn technoleg llai datblygedig yn y dyfodol. Nododd y Pwyllgor bod traffig llais ar ffonau symudol yn tyfu'n gyflymach nac ar linellau daearol. Byddai ffonau trydedd genhedlaeth yn darparu mynediad da i'r Rhyngrwyd ond bod ei defnyddioldeb yn gyfyngedig oherwydd maint y sgrîn. Byddai ffonau symudol 'traddodiadol' felly'n parhau i fod yn bwysig;
- gofynnwyd i BT pa gynlluniau oedd ganddo i ymgymryd â phrojectau Amcan 1. Nododd y pwyllgor bod BT yn ymchwilio i broject gyda'r WDA a'r Cynulliad i ddatblygu TGCh ymysg mentrau bach a chanolig (SMEs) yng Nghymru. Roedd angen gwella lefelau sgiliau gweithwyr yn sylweddol fel y gellid manteisio i'r eithaf ar dechnoleg TGCh ac roedd ymchwil yn cael ei chynnal i weld sut y gallai arian Amcan 1 gyfrannu at hyn;
- gofynnwyd i BT beth oedd yn cael ei wneud i annog diddordeb mewn cysylltiadau cyflym ymysg SMEs ac yn y gymuned. Nododd y Pwyllgor bod ymwybyddiaeth yn cael ei godi trwy hysbysebu ond ei fod yn anodd cyrraedd SMEs oherwydd eu hamrywiaeth. Y ffordd orau o annog diddordeb oedd defnyddio enghreifftiau o arfer da a dangos sut y gallai busnesau elwa;
- gofynnwyd i BT sut y gellid cyflwyno cyfalaf i annog Ymddiriedolaethau NHS i fuddsoddi mewn telefeddyginiaeth. Nododd y Pwyllgor bod BT yn ystyried ffyrdd arloesol o gyflwyno'r dechnoleg i Ymddiriedolaethau NHS heb fuddsoddiad cyfalaf ymlaen llaw.

Yna gwahoddodd y Cadeirydd gyfraniadau a chwestiynau o'r llawr. Gofynnodd Dafydd Huws, Cynhyrchydd Annibynnol (Teledu) i BT i ba raddau y byddai'r technolegau newydd yn galluogi darllediadau dros rwydweithiau cebl cyfathrebu presennol. Nododd y Pwyllgor bod darlledu dros y Rhyngrwyd eisoes yn bosibl ond nad oedd yr ansawdd yn dda. Byddai ADSL yn galluogi anfon lluniau teledu ar hyd llinell ffôn a darparu mynediad i lyfrgelloedd fideo ar-lein gan gadw'r llinell yn rhydd ar gyfer galwadau ffôn ar yr un pryd.

Dywedodd Richard Walker, Cyngor Gwynedd bod project Haen 6 yn cael ei groesawu. Fodd bynnag byddai sawl busnes yn methu â chael mynediad i ISDN oherwydd eu pellter o gyfnewidfa ffôn. Nododd y Pwyllgor nad oedd ISDN ar gael y tu hwnt i chwech a saith cilomedr o gyfnewidfa ffôn. Roedd y rhan fwyaf o fusnesau mewn trefi a phentrefi ac, ar wahân i ffermydd pellennig, dim ond canran bach fyddai'n methu â chael mynediad. Gellid ystyried dulliau amgen megis tele-fythynnod.

Dywedodd aelod o'r cyhoedd bod anghydraddoldeb rhwng nifer y bobl oedd yn gallu cael mynediad ar gyfraddau lleol rhwng Gogledd Cymru wledig a De Cymru ddiwydiannol a galwodd am gyfraddau

galwadau amrywiol. Dadl BT oedd bod prisio safonol, cenedlaethol yn egwyddor bwysig oedd o fantais i gwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig lle roedd darparu gwasanaeth yn llai ymarferol yn fasnachol.

Diolchodd y Cadeirydd i Deiniol Tegid a Malcolm Williams am eu cyfraniad.

**Eitem 2: Twristiaeth yng Ngogledd Cymru**

Croesawodd y Cadeirydd David Williams a’i gydweithwyr i’r cyfarfod. Amlinellodd David Williams bwysigrwydd twristiaeth i economi Gogledd Cymru a dywedodd ei fod yn hanfodol bod y sector yn manteisio’n llawn ar arian Amcan 1. Yna cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Dewi Davies yn seiliedig ar y papur a ddarparwyd (NWR 02-00(p.1).

Yn ystod y drafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- ymddengys nad oedd llawer o gyfleoedd i archebu gwestai neu becynnau twristiaeth arall yng Ngogledd Cymru dros y Rhyngrwyd ac roedd angen mynd i’r afael â hyn. Nododd y Pwyllgor y gofynnwyd i Fwrdd Croeso Cymru ystyried system rheoli cyrchfannau a sefydlu gwefan. Roedd angen i ddatblygiadau o’r fath ategu’r gwasanaeth gwych a ddarparwyd eisoes gan ganolfannau croeso. Roedd angen i’r diwydiant twristiaeth fod yn fwy hygyrch a gallai’r rhyngrwyd helpu hynny;
- roedd Gogledd Cymru yn ardal ddelfrydol i ddatblygu pecynnau twristiaeth werdd megis teithiau seiclo, ac roedd angen gwneud mwy i’w hyrwyddo. Nododd y Pwyllgor bod ymgyrchoedd, wedi eu cefnogi gan ymchwil cwsmeriaid, wedi cael ac yn cael eu rhedeg i hyrwyddo twristiaeth werdd. Roedd gweithgareddau megis teithiau seiclo fodd bynnag yn farchnad ‘niche’ ac yn anodd i’w datblygu;
- er mai cyfrifoldeb llywodraeth y DU ydoedd, nodwyd pryderon Twristiaeth Gogledd Cymru am gyfradd uchel TAW a chostau tanwydd uchel. Gallai’r trothwy cofrestru TAW weithredu fel cyfyngiad ar dwf cwmni ac awgrymwyd cynnydd neu raddfa symudol. Nododd y Pwyllgor, ac eithrio Denmarc, bod TAW ar dwristiaeth yn uwch yn y DU nag unman arall yn yr Undeb Ewropeaidd. Roedd costau tanwydd hefyd yn uchel yn y DU ac yn cael mwy o effaith ar ardaloedd gwledig fel Gogledd Cymru nag ardaloedd trefol;
- gofynnwyd i Dwristiaeth Gogledd Cymru beth oedd yn cael ei wneud i sicrhau gwariant mwyaf posibl gan ymwelwyr busnes. Mynegwyd pryder hefyd ynglí n â diffyg llefydd i fwyta wrth deithio rhwng Gogledd a De Cymru. Nododd y Pwyllgor bod ymwelwyr busnes, ar gyfartaledd, yn gwario tair gwaith cymaint â thwristiaid eraill. Roedd awdurdodau lleol y rhanbarth yn cydweithio i annog twristiaeth a byddai meincnod sylfaenol ar gyfer ansawdd llety o gymorth. Os na ellid cyflwyno system wirfoddol roedd achos dros system gofrestru statudol ar gyfer pob llety i dwristiaid. Roedd llwyddiant cogyddion Cymru mewn cystadlaethau rhanbarthol a rhyngwladol yn argoeli’n dda ar gyfer ansawdd bwyd yng Nghymru;
- awgrymwyd y dylid neilltuo arian Amcan 1 yn benodol ar gyfer projectau twristiaeth ond roedd amheuaeth a ellid ennill y ddadl honno. Roedd yn bwysig bod y sector yn datblygu ac yn cyflwyno projectau mor gynnar â phosibl. Nododd y Pwyllgor bod Twristiaeth Gogledd Cymru

a’r awdurdodau lleol yn gweithio i helpu i adnabod y mathau cywir o brojectau. Roedd angen ymagwedd cyfunol i atal projectau rhag cystadlu yn erbyn ei gilydd. Mynegwyd pryder hefyd am allu’r diwydiant i godi arian cyfatebol;

- gofynnwyd i Dwristiaeth Gogledd Cymru sut y dylid targedu adnoddau ar gyfer hyrwyddo twristiaeth, sut roedd angen datblygu hyfforddiant twristiaeth a beth allai’r Cynulliad ei wneud i helpu trwy ei Strategaeth Addysg a Hyfforddiant. Roedd angen gwella ansawdd hyfforddi a statws cyflogaeth twristiaeth, trwy gynnig cymwysterau uwch gogyddion er enghraifft. Nododd y Pwyllgor bod gan Gymru gyllideb fach iawn ar gyfer hyrwyddo twristiaeth o’i gymharu ag ardaloedd eraill o’r DU ac yn rhyngwladol. Oherwydd ei gyfraniad sylweddol tuag at yr economi roedd angen mwy o arian i gyflawni’r nod o gynyddu cyfran Cymru yn y farchnad. Roedd yn rhaid darparu hyfforddiant twristiaeth ar leoliad a dylai ganolbwyntio ar dechnoleg gwybodaeth, sgiliau rheoli busnes ac ansawdd gwasanaethau. Dylid ystyried helpu cwmnïau gwyliau bach i ysgwyddo’r gost o hyfforddi staff;
- gofynnwyd i Dwristiaeth Gogledd Cymru pa syniadau newydd oedd yn cael eu datblygu yn y rhanbarth. Nododd y Pwyllgor y bydd y ffocws ar ansawdd yr amgylchedd, hygyrchedd yr ardal a’r cyfle i ymwelwyr gael gorffwys yno. Roedd yr adnoddau i hyrwyddo twristiaeth yn gyfyngedig ond roedd strategaeth cyrchfan a strategaeth thema yn hanfodol ar gyfer llwyddiant;

Yna gwahoddodd y Cadeirydd gyfraniadau a chwestiynau o’r llawr. Dywedodd Andrew Kelly, Cadeirydd Cymdeithas Llwybrau Marchogion Wrecsam a’r Ardal wrth y Pwyllgor ei bod yn hanfodol rheoli mynediad cyhoeddus i eiddo preifat mewn modd rheoledig i sicrhau’r lefel isaf posibl o wrthdaro neu amhariaeth. Bu’r Gymdeithas yn gysylltiedig â datblygu Llwybr Ceiriog, sef llwybr cylch 23 milltir ar gyfer marchogion. Roedd twristiaeth ceffylau yn cynyddu ac yn creu £220 miliwn i economi Cymru bob blwyddyn. Roedd y Llwybr yn boblogaidd iawn ond roedd angen mwy o arian ar gyfer projectau tebyg. Nid oedd Mesur Cefn Gwlad y llywodraeth yn mynd i’r afael ag anghenion marchogion. Roedd marchogaeth ar ffyrdd yn fwyfwy peryglus ac roedd wyth o ddamweiniau yn ymwneud â cheffylau/cerbydau yn y DU bob dydd. Roedd angen mwy o adnoddau felly i hyrwyddo a gwella hawliau cyhoeddus yn enwedig yn ymwneud â cheffylau.

Dywedodd y Cadeirydd bod nifer o bobl am godi’r mater o’r odyn newydd arfaethedig yng ngwaith Castle Cement yn Padeswood. Esboniodd na allai’r Pwyllgor roi sylwadau oherwydd rôl y Cynulliad wrth ystyried y cais cynllunio ond byddai eu barn yn cael ei throsglwyddo i’r Pwyllgor cyfrifol. Dywedodd Mia Jones ei bod yn westywraig yng Nghaer a dywedodd wrth y Pwyllgor y byddai argymhelliad Castle Cement yn cael effaith weledol sylweddol ac y gallai gael effaith negyddol ar dwristiaeth nawr ac yn y dyfodol. Gofynnodd am farn Twristiaeth Gogledd Cymru ar yr argymhelliad. Dywedodd David Williams y byddai’n cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y bwrdd rheoli.

Dywedodd John Newton Jones, a oedd yn cynrychioli Partneriaeth Gororau Gogledd Cymru ei bod yn hanfodol cael strwythur cenedlaethol (Bwrdd Croeso Cymru) a rhanbarthol (Twristiaeth Gogledd Cymru) i gynnal twristiaeth. Islaw’r maes hwn, dylid datblygu partneriaethau twristiaeth, megis partneriaeth Gororau Gogledd Cymru ond bod angen cyllideb effeithiol arnynt i ddarparu anghenion marchnata’r busnes yn y maes hwnnw, o fewn fframwaith cenedlaethol wedi ei bennu gan Fwrdd Croeso Cymru.

Diolchodd y Cadeirydd i Dwristiaeth Gogledd Cymru am eu cyflwyniad ac i bawb arall a oedd wedi cyfrannu i'r drafodaeth.

**Eitem 3: Blaenraglen**

Dywedodd y Cadeirydd bod angen i'r Pwyllgor benderfynu pa bynciau yr oedd am eu hystyried a phryd yr oedd yn dymuno cyfarfod rhwng nawr a gwyliau'r haf. Yn ystod y drafodaeth gwnaed y pwyntiau canlynol:

- roedd nifer y tai aml-breswyliaeth yng Ngogledd Cymru ar gynnydd. Roedd y broblem yn symud yn fewndirol ac roedd llety twristiaeth posibl yn cael ei ddefnyddio. Dylai'r Pwyllgor ystyried sut y gellid mynd i'r afael â'r broblem;
- dylai'r Pwyllgor ystyried nid yn unig trydaneiddio rheilffordd Gogledd Cymru ond hefyd ei rôl fel cyswllt strategol yn nhermau Ewropeaidd. Byddai hyn yn cynnwys cyflymder, trydaneiddio a chynhwysedd cludo;
- awgrymwyd y gallai'r Pwyllgor ystyried cynnydd o ran Amcan 1 yng nghyfarfod Mehefin neu Gorffennaf a derbyn adroddiad gan swyddogion y Cynulliad. Mynegwyd cefnogaeth i'r argymhelliad i gael cyfarfodydd thema ac awgrymwyd y dylai'r ystyriaeth o Amcan 1 hefyd gynnwys pob sefydliad â diddordeb gan gynnwys y WDA, Cyswllt Busnes, y sector gwirfoddol ac awdurdodau lleol
- nodwyd bod Partneriaeth Gofal Plant Wrecsam am wneud cyflwyniad i'r Pwyllgor ac awgrymwyd y dylid ymestyn y sesiwn i gynnwys Agenda 21.

Cytunwyd y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal yn Llangefni ar ddydd Gwener 14 Ebrill 2000. Bydd y Cadeirydd a'r Ysgrifenyddiaeth yn cytuno ar yr agenda gan ystyried yr amser cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer y paratoadau.

**Eitem 4: Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol**

Cymeradwyodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 1999 a'r cofnod o'r Sioe deithiol a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2000

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau** **Mawrth 2000**